Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Coleg Cymraeg Cenedlaethol



www.colegcymraeg.ac.uk
@ColegCymraeg

Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Tuag at 2020 a thu hwnt

Cyhoeddwyd: Ionawr 2017

Cynnwys

Rhagair y Deon **iv**

Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Tuag at 2020 a thu hwnt **1**

Cyflwyniad 1

Cyd-destun Polisi 8

Cynllunio Academaidd tuag at 2020 a thu hwnt **10**

Datblygiad addysg uwch yn y degawd nesaf 13

Technoleg 13

Darpariaeth gydweithredol 14

Dysgu mwy hyblyg 15

Dysgu yn y gweithle 15

Cyrsiau a chymwysterau amrywiol 15

Ehangu Mynediad 16

Llwybrau Dysgu 16

Cynllunio Academaidd fesul pwnc **17**

Maes blaenoriaeth polisi cyhoeddus 19

Mesuryddion 21

Rhagair y Deon

Pleser gennyf gyflwyno Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a gymeradwywyd gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg yn eu cyfarfod ar 23 Tachwedd 2016. Mae'r Cynllun hwn yn ffrwyth trafodaethau Bwrdd Academaidd y Coleg, Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ac ymgynghoriad gyda phrifysgolion a phartneriaid eraill dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd yng Nghynllun Academaidd cyntaf y Coleg nôl yn 2012.

Er 2012 mae'r Coleg wedi gosod sylfeini cynaliadwy ar gyfer darpariaeth helaeth ar draws ystod eang o ddisgyblaethau academaidd. Bellach, mae dros 900 o gyrsiau gradd y gellir astudio rhan ohonynt yn y Gymraeg. Adeilada'r Cynllun newydd hwn ar hynny, gan ganolbwyntio ar sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf, gyda'r myfyrwyr wrth galon y broses addysgiadol. Amcan y Cynllun yw sicrhau bod yr addysg yn rhyngwladol ei naws ac yn rhoi i'r myfyrwyr ddealltwriaeth o Gymru o fewn y cyd-destun byd-eang priodol, a thrwy hynny yn eu paratoi yn effeithiol at y byd gwaith.

Nid ar chwarae bach mae sicrhau datblygiad sylweddol ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ond cynnig y Cynllun hwn gyfle cyffrous i gyfrannu'n bwrpasol at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'n dda gennyf felly gyflwyno'r Cynllun, a fydd, rwy'n hyderus, o'i weithredu'n llawn ac effeithiol, yn gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau creu cenedl ddwyieithog hyderus.

Dr T. Hefin Jones

Deon y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – Tuag at 2020 a thu hwnt

Cyflwyniad

Sefydlwyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel ymateb i'r galw cynyddol i sicrhau bod hawl gan bob myfyriwr i addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf. Dyma'r egwyddor a fu'n sail i Gynllun Academaidd gwreiddiol y Coleg Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2012, a bu'r Coleg wrthi'n ddiwyd yn ystod ei bum mlynedd cyntaf yn gosod yr egwyddor honno ar waith. Mae'r Cynllun Academaidd hwn yn adeiladu ar y gwaith cychwynnol hwn. Mae'r egwyddorion a'r themâu a osodwyd yn wreiddiol yn parhau'n weithredol tra bo'r Cynllun hwn yn gosod blaenoriaethau strategol y cyfnod nesaf.

Yn ystod cyfnod sefydlu'r Coleg mae'r blaenoriaethau strategol wedi cynnwys:

- Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg (o leiaf 40 credyd) ar draws ystod eang o bynciau, yn bennaf drwy fuddsoddi mewn **Darlithyddiaethau drwy'r Cynllun Staffio**, a phrosiectau a gweithgareddau eraill drwy'r **Gronfa Datblygiadau Strategol**. Mae'r buddsoddiad hwn wedi bod yn seiliedig ar Gynllun Academaidd cenedlaethol y Coleg a'r cynlluniau datblygu pynciol sydd wedi bwydo i mewn iddo;
- Cynnig, hybu a hyrwyddo **Ysgoloriaethau i Fyfyrwyr Israddedig** sydd yn astudio ar gyrsiau cymwys a bennir gan y Coleg;
- Cynnig hyd at ddeg **Ysgoloriaeth Ddoethuriaethol** y flwyddyn, i'w cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Datblygu **Isadeiledd Technegol**, yn benodol drwy lwyfan adnoddau ac e-ddysgu'r Coleg, ***Y Porth***, i hybu dysgu cydweithredol a rhannu adnoddau cyfrwng Cymraeg;
- Darparu **Rhaglenni Hyfforddiant** a llwybr i gymhwyso fel addysgwyr cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg i staff academaidd, myfyrwyr ôl-radd ac ymchwilwyr gyrfa-gynnar;
- Canolbwyntio ar gyrraedd targedau'r Cyngor Cyllido (HEFCW)/ Llywodraeth Cymru parthed y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5/o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Erbyn hyn, mae'r blaenoriaethau a restrir uchod, i raddau helaeth, wedi eu cyflawni:

i. Mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg nag erioed o'r blaen – 5,300 yn astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac, erbyn 2014/15, 2,500 o'r rheiny'n astudio'n helaeth drwy gyfrwng y Gymraeg , a hynny er gwaethaf a) newidiadau ym mhatrymau dewis myfyrwyr gyda mwy o fyfyrwyr sydd yn medru'r Gymraeg yn dewis astudio y tu hwnt i'r ffin; b) lleihad

sylweddol (iawn) yn y nifer o fyfyrwyr rhan-amser, gan gynnwys cynlluniau fel Cynllun AUR; a c) lleihad yn y nifer o fyfyrwyr Addysg/Hyfforddi Athrawon;

ii. Mae o leiaf 40 credyd y flwyddyn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn y mwyafrif o feysydd academaidd bellach. Mae lleiafrif bach o feysydd lle y bydd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno o'r newydd yn ystod y flwyddyn/18 mis nesaf. Prin iawn yw'r meysydd pwnc lle na fydd 40 credyd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2020;

iii. Mae cynlluniau datblygu pynciol wedi eu creu ym mhob maes a nodwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol;

iv. 115 o ddarlithwyr wedi eu penodi mewn prifysgolion ar draws Cymru;

v. 700 o adnoddau digidol Cymraeg a dwyieithog mewn 24 pwnc gwahanol yn Llyfrgell y Coleg, ac isadeiledd cadarn ar gyfer ystod o ddatblygiadau pellach;

vi. Dros 600 o fyfyrwyr wedi derbyn ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig;

vii. Dros 50 o fyfyrwyr wedi derbyn ysgoloriaethau i fyfyrwyr Meistr;

viii. Dros 600 o fyfyrwyr wedi ennill Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg;

ix. Y Dystysgrif Sgiliau Iaith wedi ei hachredu fel cymhwyster ffurfiol gan CBAC;

x. Dros 100 o weithdai Datblygu Staff wedi eu cynnal i hyfforddi dros 1,000 o staff, a 200 o fyfyrwyr ôl-radd wedi eu hyfforddi mewn sgiliau ymchwil, gyda rhaglenni Datblygiad Staff Academaidd a Sgiliau Ymchwil y Coleg wedi eu mapio yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol yr Academi Addysg Uwch a Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, ac yn denu nifer o hyfforddeion bob blwyddyn;

xi. Dros 2,000 o fyfyrwyr wedi ymaelodi bob blwyddyn gyda'r Coleg Cymraeg;

xii. Dros 50 o Ysgolorion PhD wedi eu cyllido.

Wrth grynhoi felly, gellid nodi y bu blynyddoedd cynnar y Coleg Cymraeg yn rhai llwyddiannus wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol/gweithredol a gytunwyd. Trwy hyn oll, gosodwyd seiliau cadarn iawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r cynnydd a nodir uchod, serch hynny, yn ddibynnol yn rhannol ar amrywiol ffactorau allanol sydd wedi dylanwadu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni gan y Coleg. Mae'r ffactorau hynny yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Nifer y myfyrwyr sy'n astudio Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol drwy gyfrwng y Gymraeg ac amrediad y pynciau a astudir;
- Nifer y myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg sy'n dewis astudio mewn prifysgol yng Nghymru;
- Y patrymau o ran dewisiadau pynciol/disgyblaethol gan fyfyrwyr;
- Effaith polisïau Llywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol o ran cynhaliaeth ariannol i fyfyrwyr;

- Y graddau y gellir adnabod galw eglur gan gyflogwyr am raddedigion sy'n medru'r Gymraeg ac sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau rhan-amser;
- Newidiadau ym maes Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sydd wedi effeithio ar y niferoedd myfyrwyr sydd yn hyfforddi fel athrawon.

Mae amryw o'r ffactorau hyn wedi milwrio yn erbyn datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ac felly gellid dadlau bod y cynnydd a welwyd yn ystod cyfnod y Cynllun Academaidd cyntaf hyd yn oed yn fwy trawiadol.

Ar gyfer y cyfnod nesaf, bydd y Coleg yn adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd wedi eu gosod. Ymhellach, bydd y Coleg yn mabwysiadu agwedd gyfannol at genhadaeth y Coleg a'r gwaith sydd angen ei gyflawni.

Ymhlyg mewn ymagweddu o'r math hwn, bydd angen sefydlu un egwyddor arall mewn perthynas â'r Cynllun Academaidd newydd a'r elfennau ohono a gaiff eu cefnogi drwy fuddsoddiadau gan y Coleg, yn amodol ar y gyllideb a'r adnoddau cefnogol a fydd ar gael. Hyd yn hyn, gellid dadlau mai'r prif yriant ar gyfer penderfyniadau cyllido yw'r dewisiadau a wnaed gan y prifysgolion unigol o ran cyflwyno ceisiadau i'r Coleg am gyllid, boed hynny ar gyfer swyddi academaidd mewn pynciau penodol neu ar gyfer prosiectau strategol. Yn y dyfodol, yn dilyn yr agwedd gyfannol y cyfeirir ati uchod, bydd y Coleg yn darparu arweiniad strategol cryfach ynghylch natur y gefnogaeth i wahanol feysydd. Yn yr un modd, yn dilyn adolygu cynlluniau datblygu pynciol ac ystyried cynnwys academaidd y ddarpariaeth, bydd y Coleg yn comisiynu prosiectau yn rhagweithiol yn hytrach na dibynnu yn unig ar geisiadau a gyflwynir er mwyn gweithredu blaenoriaethau a fydd wedi cael eu hadnabod a'u cytuno.



Ar yr olwg gyntaf mae ymagweddu cyfannol o'r fath yn ymddangos yn bur uchelgeisiol wrth ystyried lefel yr adnoddau sy'n debygol o fod gyda'r Coleg a'r prifysgolion yn y dyfodol rhagweladwy. Ond, awgrymir mai dim ond drwy ddeall yr egwyddor o gynllunio cyfannol mewn dull cadarn a soffistigedig y gellir sicrhau

ardrawiad mwyaf posibl y Coleg – a thrwy hynny sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae'r ymagweddiad hwn yn gwbl gyson ag argymhellion Adolygiad Diamond.[1]

Bydd hyn, fel y nodwyd uchod, yn golygu gofyn cwestiynau gwahanol, arddel dulliau cynllunio a gweithredu gwahanol, a phennu blaenoriaethau cyllido gwahanol. Er bod y Coleg wedi bod yn symud i'r cyfeiriad hwn ers ei sefydlu, bellach bydd rhaid gwneud hynny mewn dull mwy systematig, gan ddod â mwy o unoliaeth i'r gweithgareddau – yn genedlaethol a thrwy gymuned y Coleg yn ei hehangder.

Sut felly fyddai agwedd o'r fath yn llywio gwaith y Coleg yn y gwahanol elfennau a nodir uchod?

O ran y darpar fyfyrwyr – byddai angen ystyried:

- Faint o ddarpar fyfyrwyr ymhob blwyddyn a allai astudio elfen o'r cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg? O blith y rhain, faint sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (neu a allai wneud hynny petai'r cynnig ar gael) ar lefel Safon Uwch neu gyfatebol mewn ysgol; faint sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (neu a allai wneud hynny petai'r cynnig ar gael) ar lefel Safon Uwch neu gymhwyster cyfatebol mewn sefydliad addysg bellach; a faint sy'n fyfyrwyr aeddfed sy'n ystyried mentro a/neu ddychwelyd i fyd addysg uwch? Mae perthynas amlwg yma â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.[2]
- O blith y darpar fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg – pwy ydynt? Ble maent yn byw? Pa bynciau maent yn eu hastudio ar hyn o bryd? Beth yw eu hagweddau tuag at y Gymraeg ac at astudio drwy gyfrwng yr iaith? Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar eu dewisiadau prifysgol? Beth yw eu canfyddiadau o brifysgolion yng Nghymru? Beth yw eu sgiliau ieithyddol? Beth yw eu canfyddiadau o'u sgiliau ieithyddol? Pa bynciau gradd y maent yn ymddiddori ynddynt? Beth am fyfyrwyr sy'n llai hyderus yn eu sgiliau Cymraeg – sut gellir sicrhau pob cyfle iddynt fanteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y brifysgol?
- Ymhlith y darpar fyfyrwyr sydd newydd neu sydd ar fin mynd i'r brifysgol – i ba raddau yr ydym yn gallu creu map cynhwysfawr o ddewisiadau myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg?
- Yn olaf, ac i ychwanegu lefel o gymhlethdod pellach i'r darlun – pwy sy'n cael dylanwad arwyddocaol ar yr agweddau sydd gan fyfyrwyr? Cyd-fyfyrwyr yn yr ysgol neu goleg addysg bellach? Cyfoedion y maent yn eu hadnabod sydd eisoes yn y brifysgol? Athrawon? Darlithwyr Addysg Bellach? Cynghorwyr Gyrfa? Rhieni/Gwarcheidwaid? Eraill?

O gael darlun llawnach o'r gynulleidfa darged – a hynny o fewn cyd-destun cynllunio ehangach mewn perthynas â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru – byddai modd i'r Coleg adnabod yn fwy cywir a chyflawn beth yw natur

1 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Adolygiad Diamond ar gyllido Addysg Uwch yng Nghymru ym Medi 2016, http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?skip=1&lang=cy

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi strategaeth ddrafft ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-y-gymraeg

y gynulleidfa darged. Mae sicrhau dilyniant effeithiol o'r ysgol/coleg i'r brifysgol, a maes o law i'r byd gwaith yn allweddol i lwyddiant.

Ar sail y dadansoddiad a wneir, y cam nesaf fyddai llunio rhaglen o weithgareddau i dargedu'r gynulleidfa honno gan gydnabod yr holl arfau posibl a all fod ym meddiant y Coleg i'w chyrraedd. Mae adnoddau canolog y Coleg – h.y. swyddogion cyflogedig y Coleg ym maes marchnata a chyfathrebu – yn fychan, ond o ystyried partneriaid y Coleg o fewn a thu hwnt i'r Sector Addysg Uwch, gellid creu rhwydwaith llawer ehangach er mwyn datblygu strategaeth hir dymor ar gyfer y gweithgareddau hyrwyddo a marchnata hyn.

O'u disgrifio felly, mae'r nod, o bosibl, yn gyraeddadwy, ond buan iawn bydd y Coleg yn taro yn erbyn cyfleoedd a/neu rwystrau nad oes ganddo, yn y man cyntaf o leiaf, fawr o reolaeth drostynt:

- polisi ffioedd Llywodraeth Cymru;
- polisi prifysgolion Lloegr (Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol;
- canfyddiad myfyrwyr o enw da prifysgolion Cymru.

Cymysg yw'r dystiolaeth o union effaith polisi ffioedd Llywodraeth Cymru ar ddewisiadau myfyrwyr. Mae'r nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis aros yng Nghymru tua'r un fath ag yr oedd bum mlynedd yn ôl, ond mae'r nifer o fyfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio yn Lloegr wedi cynyddu'n sylweddol, gyda nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn eu mysg.

O ran polisi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol mewn perthynas â phrifysgolion Lloegr – cyfeirir yn benodol at y nenfwd ('cap') ar lefel ffioedd myfyrwyr. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi codi'r cyfyngiadau ar niferoedd myfyrwyr ac felly mae hawl gan brifysgolion yno i recriwtio pa faint bynnag o fyfyrwyr ag y maent yn gallu eu denu. Bydd effeithiau hyn yn dod hyd yn oed yn fwy amlwg wrth i amrediad o ddarparwyr newydd gael mynediad i'r farchnad. Mae'r Fframwaith Polisi Addysg Uwch yn Lloegr yn caniatáu i ddarparwyr newydd – a all fod yn fentrau newydd, yn gwmnïau neu sefydliadau o bob math – gofrestru a chael yr hawl i ddarparu graddau, ac amcangyfrifir y gallai dros 300 wneud hynny erbyn 2020. Gellir disgwyl felly i brifysgolion Lloegr wneud hyd yn oed fwy o ymdrech i ddenu myfyrwyr o Gymru dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r gystadleuaeth farchnad yno dra-arglwyddiaethu dros unrhyw ystyriaethau eraill.

Y drydedd elfen sydd angen ystyriaeth ofalus yw ***enw da'r brifysgol ac enw da'r cwrs***. Mae sut yn union y mae myfyrwyr yn deall y ffactorau hyn yn gymhleth. Mae'n gallu deillio o berfformiad mewn tablau gwahanol, perfformiad ymchwil ysgol/adran academaidd, canfyddiadau am safon yr addysgu a boddhad y myfyrwyr mewn ysgol/adran, ynghyd â chanfyddiadau am y brifysgol yn ehangach. Mae angen ystyried hefyd fod modd i ysgol/adran fod yn flaengar ac arloesol (a chael ei chydnabod felly) heb fod ganddi o reidrwydd statws uchel mewn tabl penodol. Wedi nodi'r ffactorau cyd-destunol hyn, mae angen cydnabod fod ***enw da*** yn effeithio'n sylweddol ar benderfyniadau myfyrwyr. Faint o blith prifysgolion Cymru sy'n cael eu hystyried neu eu cydnabod ymysg y prifysgolion gorau ym Mhrydain? Faint o blith prifysgolion Cymru sy'n cael eu hystyried neu eu cydnabod oddi mewn i'w grŵp o brifysgolion fel rhai o'r goreuon? Faint o blith

adrannau neu ysgolion academaidd prifysgolion Cymru sy'n cael eu hystyried neu eu cydnabod ymysg, dyweder, y deg gorau yn y Deyrnas Gyfunol?

Wrth ystyried hyn, mae'r drafodaeth yn symud o'r darpar fyfyriwr i brofiad y myfyriwr. Hyd yn hyn, trafodwyd y ffactorau sy'n effeithio ar y darpar fyfyriwr, ond mae'n arwain yn resymegol at graidd cyfle/her y Coleg Cymraeg Cenedlaethol – sef darparu profiadau addysgiadol cyfrwng Cymraeg. Heb fod y craidd hwn yn gadarn (ac atyniadol), bydd yr ymgyrchoedd marchnata mwyaf caboledig a chynhwysfawr i'r darpar fyfyrwyr yn rhwym o fethu â chyflawni'r nod.

Mae amcan creiddiol y Coleg fel y'i gosodwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol yn cynnig her amlwg:

'**Yr hawl i addysg uwch Cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf.**'

Blaenoriaeth y Coleg yn ei flynyddoedd cyntaf fu cynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol a gwireddu eu hawl i brofiad addysgiadol cyfrwng Cymraeg. Bu'r datblygiadau hynny yn sylweddol, a bellach mae modd astudio o leiaf elfen sylweddol o'r cynllun gradd ym mhob un o'r pynciau a restrwyd yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn o leiaf un o brifysgolion Cymru. Ceir gwahaniaethau fesul pwnc o ran datblygiad ac, yn wir, o ran maint y ddarpariaeth a ystyrir yn briodol (e.e. graddau dwyieithog fu'r amcan yn y Gwyddorau yn bennaf, gydag o leiaf traean o'r cwrs gradd yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg), ond ni ellir gwadu bod hyn yn gam mawr ymlaen.

Serch hynny, os ydym am fwrw golwg gyfannol ar y materion hyn, yr awgrym a wneir yw fod ail hanner yr amcan llawn mor bwysig â'r hanner cyntaf. Hynny yw, mae'n rhaid hoelio sylw ar sicrhau addysg Gymraeg o'r radd flaenaf.

Beth felly yw nodweddion profiad addysgiadol cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf? Awgrymir y nodweddion a ganlyn gan gydnabod bod union gydbwysedd y rhain yn gallu amrywio'n fawr rhwng disgyblaethau:

- Pwnc yn cael ei addysgu gan arbenigwyr cydnabyddedig yn y maes sydd ag enw da iddynt fel addysgwyr a/neu ymchwilwyr yng Nghymru a thu hwnt;
- Cwricwlwm Cymraeg/dwyieithog sydd wedi ei gynllunio fel bo'r profiad cyfrwng Cymraeg yn addas i gyd-destun y pwnc a'r farchnad gyflogaeth wedi i'r myfyriwr raddio;
- Llais y myfyrwyr i'w glywed yn glir wrth ddatblygu a chreu'r cyrsiau y maent yn eu hastudio;
- Myfyrwyr yn elwa ar brofiad cyfoethog yn y cwrs o ran cefnogaeth astudio, adborth a chefnogaeth gan ddarlithwyr, profiadau allgyrsiol a chyfleoedd amgen i ddatblygu eu gyrfaoedd;
- Myfyrwyr yn cyflawni'n rhagorol o gymharu â'u cymheiriaid, o ran cyfraddau cwblhau a graddau prifysgol;
- Adnoddau safonol wedi eu cynllunio a'u datblygu i gefnogi astudiaethau'r myfyrwyr, gyda digon o'r adnoddau hyn ar gael yn y Gymraeg i sicrhau hyder y myfyrwyr i ymdrin â'r pwnc yn y Gymraeg;

- Cyfleoedd addysgiadol amlddisgyblaethol;
- Perthynas weithredol â'r byd gwaith a chynlluniau pendant i gefnogi a/neu ddatblygu llwybrau gyrfa addas i bob myfyriwr, gan gydnabod blaenoriaethau cynllunio gweithlu cenedlaethol;
- Cyfradd cyflogaeth graddedigion wedi iddynt raddio – a'r mathau o swyddi y maent yn eu cyflawni;
- Canran dda o'r myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudiaethau ôl-raddedig;
- Nifer hyfyw o fyfyrwyr a darlithwyr i sicrhau cynaliadwyedd yr addysgu ac ehangder y pynciau a drafodir.
- Addysg Gymraeg gynhwysol – cwricwlwm sy'n cynnwys pawb beth bynnag fo eu nodweddion a'u cefndir. Mae angen felly i addysg cyfrwng Cymraeg fod yn addysg y mae pob myfyriwr yn gallu ymgysylltu â hi; o'r adnoddau i'r dysgu, ac o'r amgylchedd dysgu i'r asesiadau. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i fyfyrwyr fod wrth galon siapio eu haddysg.

Mae cwestiwn hefyd yn codi: beth yw'r amcan o ran addysg o'r radd flaenaf? Mae datblygiad y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA, neu'r TEF) yn berthnasol iawn i'r drafodaeth hon, ac wrth i'r mesuryddion ddatblygu bydd ystyriaethau academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn adlewyrchu datblygiad fframwaith addysgu prifysgolion Prydain.

O gydnabod mai enw da'r brifysgol a'r cwrs yw'r hyn sy'n gyrru dewisiadau myfyrwyr yn y man cyntaf, gosodir yr amcan yn eglur o ddwyn y gorau o'r byd i Gymru a chyflwyno'r gorau o Gymru i'r byd, a hynny drwy addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae angen i'r addysg uwch cyfrwng Cymraeg fod fan lleiaf yn gymharus gydag addysg a ddarperir mewn ieithoedd eraill.

Wrth bennu cyfres o nodweddion ac amcanion sy'n perthyn i addysg o'r radd flaenaf, y gamp – a hynny gan gydnabod yn gwbl agored mai proses nid digwyddiad yw addysg o'r radd flaenaf – yw edrych ar bob pwnc ac ystyried pa mor agos yw'r pwnc at y ddelfryd a osodir, a beth y gellid ei wneud i ddatblygu'r pwnc i'r cyfeiriad hwn. Bwriad y Coleg fyddai cydweithio'n agos gyda phrifysgolion i hybu safonau addysgiadol o'r radd flaenaf, a bydd y Coleg yn ganolog yn datblygu cynlluniau cefnogol newydd i hwyluso hynny.

Fel sylfaen i hyn oll, mae'r math hwn o feddylfryd ac ymagweddiad strategol yn rhwym o olygu y bydd angen i'r Coleg weithio'n fwy manwl ac eang, ac yn uniongyrchol gyda'r gymuned academaidd cyfrwng Cymraeg. Os yw'r fath weledigaeth o ddatblygiad addysgiadol yn y brifysgol i'w rhoi ar waith, bydd angen datblygu cymuned y Coleg – yn genedlaethol a thrwy'r canghennau – mewn modd llawer mwy dwys na'r hyn a ddigwyddodd hyd yn hyn. Mae penderfyniad y Coleg i sefydlu'r cysyniad o ddarlithydd cysylltiol yn gam tuag at greu perthynas weithredol gyda'r gymuned academaidd ehangach.[3] Wrth i batrymau cyllido

3 Wrth i gyfnodau cyllido swyddi drwy'r Cynllun Staffio Academaidd ddod i ben wedi pum mlynedd bydd nifer y swyddi darlithio a noddir gan y Coleg yn lleihau. Mae'r Coleg wedi mabwysiadau'r egwyddor o ddefnyddio'r term 'darlithydd cysylltiol' i gyfeirio at bob darlithydd sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn adrannau fydd yn derbyn nawdd gan y Coleg drwy'r Cynllun Academaidd newydd.

darpariaeth symud o'r patrwm gwreiddiol o noddi swyddi drwy'r Cynllun Staffio Academaidd tuag at grantiau pynciol, bydd y Coleg yn sefydlu cytundebau gyda sefydliadau unigol yn nodi ymrwymiadau a fydd yn cael eu cynnal gan y sefydliad yn ogystal â'r gweithgareddau a noddir drwy grantiau gan y Coleg.

Cyd-destun Polisi

Mae'n bwysig nodi cyd-destun datblygiadau addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt wrth drafod cynllunio academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriwyd at rai o'r materion hyn yn y cyflwyniad uchod ond mae'n werth eu nodi eto, ynghyd â nifer o ffactorau eraill:

- Polisi Cynhaliaeth Ariannol i fyfyrwyr. Bu trafodaeth frwd ynghylch effaith polisi ffioedd Llywodraeth Cymru ar y farchnad fyfyrwyr yng Nghymru. Mae argymhellion Adolygiad Diamond yn cynnig ffordd ymlaen am bolisi cynhaliaeth ariannol ond nid yw'n wybyddus eto i ba raddau nac ym mha flwyddyn y bydd casgliadau'r Adolygiad yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru;
- Codi'r nenfwd ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr ac ailgyflunio'r sector addysg uwch yno. Mae datblygiadau sylweddol wedi digwydd o ran polisi prifysgolion yn Lloegr sydd yn, ac a fydd, yn cael effaith sylweddol ar y sector yng Nghymru. Mae'r nenfwd ('cap') ar y nifer o fyfyrwyr y gall prifysgolion eu derbyn yn Lloegr wedi ei godi ac felly mae modd i brifysgolion recriwtio faint bynnag o fyfyrwyr ag y maent yn dymuno. Mae hyn yn rhwym o gynyddu cystadleuaeth, yn enwedig i'r prifysgolion hynny a ddisgrifir fel rhai ***medium tariff***, hynny yw, y rhai y mae eu gofynion mynediad yn gymedrol. Ond, mae'r sector hefyd yn cael ei effeithio gan ddyfodiad darparwyr newydd. Dros y blynyddoedd diwethaf bu i gynifer o ddarparwyr newydd gofrestru fel darpar brifysgolion ag sydd o brifysgolion a sefydlwyd eisoes. Mae nifer o'r darparwyr hyn yn fychan ar hyn o bryd ond mae'r potensial am gystadleuaeth ac am fodelau gwahanol iawn o ddarpariaeth brifysgol yn sylweddol iawn;
- Cyflwyno'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA). Mae'r FfRhA yn ddatblygiad sylweddol iawn yng nghyd-destun y sector addysg uwch a bydd yn clymu'r hawl i godi ffioedd dysgu ar fyfyrwyr gyda safon yr addysgu yn y brifysgol. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y farchnad fyfyrwyr – gan y bydd prifysgolion yn awyddus (iawn) i wneud defnydd helaeth o bob cydnabyddiaeth ffurfiol o addysgu rhagorol wrth farchnata eu cyrsiau;
- Adolygiad Addysg Proffesiynau Iechyd (Cymru). Ers blynyddoedd yng Nghymru mae rhaniad wedi bodoli rhwng cyrsiau addysg uwch (a ariannwyd drwy CCAUC) a chyrsiau addysg uwch yn y meysydd iechyd (ac eithrio Meddygaeth) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain Ac Arloesi Mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a bellach drwy Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS). Yn dilyn adroddiad a luniwyd gan yr Athro Robin Williams, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi sefydlu Addysg Iechyd Cymru yn ystod 2017. Wrth ystyried pwysigrwydd y meysydd iechyd yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, mae sut yn union y bydd hyn yn datblygu yn allweddol;

- Astudiaethau Rhan-amser. Mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser yn y brifysgol yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol ac yn parhau i wneud – er bod y cwymp yng Nghymru yn llai trawiadol na'r cwymp yn Lloegr lle y mae'r polisi ffioedd wedi cael effaith sylweddol iawn ar y cyfle i fyfyrwyr i astudio'n rhan-amser yn y brifysgol;
- Brexit. Mae ansicrwydd mawr ar hyn o bryd ynghylch yr hyn fydd hyd a lled effaith Brexit ar y sector addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt. Mae hynny yn ddibynnol iawn ar union natur y trafodaethau a fydd yn digwydd rhwng Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd, a beth fydd canlyniad y trafodaethau hynny. Er ei fod yn anodd rhagweld union ganlyniadau'r trafodaethau, mae'n bur amlwg na fydd rhai cynlluniau y bu'r prifysgolion yn elwa arnynt yn y gorffennol ar gael. Mewn cyd-destun o'r fath, gellir rhagweld y bydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn wynebu cystadleuaeth ehangach am adnoddau mewnol prifysgolion yn erbyn blaenoriaethau eraill sydd, ar hyn o bryd o bosibl, yn derbyn cefnogaeth o ffynonellau Ewropeaidd.

Cynllunio Academaidd tuag at 2020 a thu hwnt

Mae'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wrth gynllunio'n academaidd a datblygu darpariaeth yn awgrymu bod cyfle gwirioneddol i ddatblygu a gwreiddio'r ddarpariaeth yn ddyfnach yn ystod y cyfnod nesaf. Er gwaethaf yr heriau a gynigir gan gyd-destun polisi cyhoeddus, awgrymir bod y seiliau cadarn a osodwyd yn rhoi cyfle i ddatblygu darpariaeth sy'n wirioneddol flaengar ymhellach, ac y bydd yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel profiad addysgol o'r radd flaenaf. Tra bod y Coleg a'r prifysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod darpariaeth yn ei lle yn ystod y pum mlynedd cyntaf, daeth y cyfle bellach i ddatblygu'r ddarpariaeth honno ymhellach. Mae'r Cynllun yn rhan allweddol o ddatblygiad polisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a bwriad y Cynllun hwn yw cyfrannu'n adeiladol a chadarnhaol at wireddu'r amcan hir dymor o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd Cynllun Academaidd y Coleg yn ystod y cyfnod nesaf yn canolbwyntio ar y nod o sicrhau y cynigir addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Proses gydweithredol fydd hon rhwng y Coleg a'r prifysgolion yng Nghymru, a datblygir y broses o gynllunio pynciol i fod yn broses o edrych yn fwy cyflawn ar y pwnc dan sylw a chynnig llwybrau i ddatblygu'r pwnc ar sail ystod o gwestiynau a fydd yn gynhorthwy i sicrhau addysg uwch o'r radd flaenaf.

Gan adeiladu ar y nodweddion sydd eisoes wedi eu trafod am addysg o'r radd flaenaf, nodir y penawdau canlynol, a fydd maes o law yn cael eu trafod yn y cynlluniau pwnc unigol:

- Profiad y Myfyriwr
- Darlithwyr
- Cwricwlwm
- Canlyniadau'r Myfyriwr
- Adnoddau
- Cyflogadwyedd
- Cynaliadwyedd

Mae ymateb i'r penawdau hyn, wrth reswm, yn heriol, ond os am ddatblygu patrwm o ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg sy'n gynaliadwy ar gyfer cenhedlaeth a mwy, mae uchelgais yn hollbwysig. Ni allwn fod yn sicr beth fydd y cyd-destun polisi cyhoeddus nac ychwaith lefel buddsoddiad llywodraeth – felly mae adeiladu patrwm o ddarpariaeth ddisglair a llwyddiannus yn allweddol.

Trafodir pob un o'r penawdau hyn yn gychwynnol islaw:

1. **Profiad y myfyriwr**. Beth yw hyd a lled y gefnogaeth astudio a'r adborth sydd ar gael i fyfyrwyr ar y cwrs? Oes trefniadau mewn lle i sicrhau bod cefnogaeth ddwyieithog ar gael i fyfyrwyr o ran sgiliau astudio? Gloywi iaith? Profiadau allgyrsiol? Cyfleoedd ychwanegol megis cynlluniau profiad gwaith neu wobrau cyflogadwyedd? Mae'n gynyddol amlwg bod angen i fyfyrwyr ddatblygu set o sgiliau crwn yn hytrach na meithrin y gallu i ddarparu gwybodaeth a sgiliau technegol yn unig – ac felly mae cefnogaeth astudio briodol a'r profiadau amgen a gynigir yn bwysig wrth ddatblygu. A oes partneriaeth amlwg gyda'r myfyrwyr yng nghyd-destun yr astudiaethau? A yw myfyrwyr wedi chwarae rhan yn creu'r cwrs a/neu ei ddatblygu? A yw myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol ar ôl datblygu cynnwys y cwrs? A yw'r addysg felly yn gynhwysol (yn ystyr ehangaf y term)?

2. **Darlithwyr** sy'n arbenigwyr cydnabyddedig. Beth yw natur y gymuned academaidd a fydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? A yw'r addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu cydnabod fel arweinwyr ac arloeswyr o ran dysgu, ymchwil a/neu ymgysylltu ehangach? Wrth reswm, mae'r rhain yn gwestiynau anodd, ond mae angen ystyried yn ofalus ddatblygiad timau o addysgwyr cyfrwng Cymraeg sy'n gallu cynnig profiad cyfoethog ac amrywiol yn y Gymraeg. Pwysleisir yma nad ymchwilwyr nodedig yn unig sydd dan sylw, ond sicrhau bod unigolion a gydnabyddir fel arweinwyr yn eu maes – boed hynny o ran ymchwil, addysgu neu ymgysylltu â'r gymuned – yn cael eu meithrin a'u datblygu fel rhan o'r timau cyfrwng Cymraeg. Mewn rhai meysydd bydd y patrwm eisoes yn addas a chadarn, ond mewn meysydd eraill mae'n bosibl y bydd angen ystyried strategaeth degawd a mwy i ymgyrraedd at sefyllfa gadarn. Os yw'r ddarpariaeth gyfan cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar un darlithydd gyrfa gynnar ac ychydig o gymorth dyweder gan fyfyriwr PhD, mae'n mynd i fod yn heriol! Bydd angen ystyriaeth fanwl i raglen hyfforddi a chefnogi ar gyfer y sawl sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir sail gadarn i'r gwaith hwn gyda'r Rhaglen Datblygiad Staff Academaidd sydd eisoes mewn lle gan y Coleg. Bydd angen hefyd ystyried yn fanwl sut i ddatblygu cymuned academaidd y Coleg ymhellach, yn enwedig wrth i'r cydbwysedd symud tuag at (fwy o) ddarlithwyr sydd â chyswllt â'r Coleg yn hytrach na (nifer llai o) darlithwyr a gyllidir yn llawn gan y Coleg.

3. **Cwricwlwm** Cymraeg/dwyieithog wedi ei gynllunio. A fu ystyriaeth lawn o'r cyd-destun Cymraeg a Chymreig wrth lunio'r cwricwlwm ar gyfer addysgu cyfrwng Cymraeg? A yw'r cwricwlwm yn dwyn y gorau o'r byd i Gymru ac yn cyflwyno'r gorau o Gymru i'r byd? Ceir rhai enghreifftiau amlwg lle y digwyddodd hyn, ond ceir enghreifftiau eraill lle y mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfieithiad union o'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Awgrymir o leiaf y dylid ystyried pa mor addas yw'r cwricwlwm a gynigir i addysg cyfrwng Cymraeg, ac y dylid cymryd pob cyfle i wreiddio'r addysg yn y cyd-destun Cymraeg a Chymreig. Dylid cydnabod yn y cyd-destun hwn hefyd fod rhai pynciau yn fwy caeth o ran dewisiadau cwricwlwm nag eraill gan fod y cyrsiau wedi eu cymeradwyo a/neu eu hachredu gan gyrff rheoleiddio ar gyfer y maes penodol. A oes yna gyfleoedd o fewn y cwrs gradd i dderbyn addysg amlddisgyblaethol? Mae rhai o'r pynciau ym meysydd iechyd yn dechrau

datblygu cyfleoedd o'r fath (ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr yn elwa ar y profiadau hyn) ond a oes digon o gyfleoedd yn cael eu cynnig?

4. **Cyflawniadau myfyrwyr**. Un o'r mesuryddion amlycaf o ran datblygiad myfyrwyr yw eu cyfraddau cyflawni a'r graddau prifysgol a ddyfernir. Sut mae'r myfyrwyr sy'n derbyn addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn cymharu â'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg o ran cyfraddau cyflawni? A beth am raddau prifysgol? A yw'r myfyrwyr ar y cwrs cyfrwng Cymraeg yn cyflawni'n well, yn waeth neu tua'r un peth? Sut mae hyn yn perthnasu i raddau mynediad y myfyrwyr? Mae'n bwysig cofio os yw myfyriwr wedi cyrraedd gyda graddau mynediad isel ac wedi llwyddo i dderbyn gradd Dosbarth 2(i), gall hynny fod yn fwy o gamp na myfyriwr hynod ddisglair yn derbyn gradd Dosbarth Cyntaf! Dylid hefyd ystyried a yw'r myfyriwr yn mynd ymlaen i astudio'n ôl-raddedig. Os yw'r myfyrwyr wedi elwa ar addysg gyfoethog a diddorol, mae'n bosibl iawn y byddant yn awyddus i astudio ymhellach. Pa gyfleon sydd ganddynt i fynd ymlaen at astudiaethau ôl-raddedig (drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddelfrydol) a faint sy'n elwa ar y cyfleon hyn?

5. **Adnoddau**. Beth yw hyd a lled yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg? Wrth reswm, mae'n rhaid cydnabod na fydd byth yr un nifer o adnoddau ar gael yn y Gymraeg ag sydd ar gael yn y Saesneg – mae hynny'n batrwm tebyg i unrhyw iaith Ewropeaidd, gan gynnwys ieithoedd a siaredir yn llawer ehangach na'r Gymraeg. Ond, a oes adnoddau addas wedi eu datblygu? A ydynt yn cwrdd â gofynion y myfyrwyr? Ac a ydynt o safon addas?

6. **Cyflogadwyedd**. Pa faint o'r addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir sy'n cynnwys cyswllt pendant â'r byd gwaith? Gwyddom fod rhai cyrsiau yn cynnwys modiwlau penodol sy'n ymwneud â phrofiad gwaith – neu hyd yn oed yn cynnig blwyddyn gyfan allan 'mewn diwydiant', ond i ba raddau y ceir cyswllt amlwg â'r byd gwaith, ac a oes pynciau lle y mae angen sicrhau mwy o sylw i'r maes hwn? Ar ddiwedd y cwrs, faint o fyfyrwyr sydd yn llwyddo i gael swydd? O fewn chwe mis? O fewn 18 mis? Ac a yw'r swydd honno'n swydd i raddedigion? Ymhellach, faint o gyflog mae'r myfyriwr yn ei ennill a sut mae hyn yn cymharu gyda myfyrwyr eraill? [Mae angen gofal fan hyn wrth gymharu tebyg at ei debyg – h.y. os yw myfyriwr yn ymgartrefu yn Llundain mae'n dra debygol y byddant yn ennill cyflog uwch na myfyriwr sydd wedi ymgartrefu yng nghefn gwlad pa bynnag swydd maent yn ei gyflawni.] Mae cyswllt cyflogwyr a diwallu anghenion y byd gwaith yn thema amlwg yn adroddiadau Diamond a Hazelkorn ac yn debygol o fod yn rhan bwysig o waith y Coleg yn ystod y cyfnod nesaf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i strategaeth Llywodraeth Cymru parthed sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – a'r gofyn felly i gynllunio gweithlu yn effeithiol a gofalus. Bydd y cynlluniau pwnc unigol yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu a dwysáu cyswllt â chyflogwyr, ac i adnabod anghenion gweithlu'r dyfodol yn well, ynghyd â sicrhau bod darpariaeth a gefnogir gan y Coleg yn ateb y galw hwn.

7. **Cynaliadwyedd**. Nifer hyfyw o ddarlithwyr a myfyrwyr i gynnal y ddarpariaeth. Faint o ddarlithwyr sydd ar gael i gynnal y ddarpariaeth? Gosodwyd meincnodau yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol, sef pedwar darlithydd ar

gyfer darpariaeth 80 credyd neu fwy, a dau ddarlithydd ar gyfer darpariaeth 40 credyd neu fwy – ac er y bu i rai ystyried bod hynny'n uchelgeisiol, mae heriau'n codi wrth i dimau bychain geisio darparu ar draws ystod o feysydd. Faint o ddarlithwyr sydd ar gael i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y tîm, a sut y gellir datblygu hynny? O ran myfyrwyr mae sicrhau nifer cynaliadwy o fyfyrwyr i astudio yn y Gymraeg yn parhau i fod yn her. Mae cryn dipyn o gonsensws fod angen tua chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn fel lleiafswm; ond mae sicrhau hynny mewn rhai pynciau a rhai cyd-destunau yn heriol.

Blas yn unig a geir yma o'r ystyriaethau a'r cwestiynau sy'n codi wrth ystyried addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf. Ar yr olwg gyntaf, efallai eu bod yn ymddangos yn rhy uchelgeisiol neu'n rhy helaeth i'w hystyried yn llawn. Amlygir dau bwynt allweddol:

1. Proses, nid digwyddiad, yw sicrhau profiadau addysgiadol o'r radd flaenaf. Os ydym yn gytûn ynghylch y nod yr ydym yn anelu ato, mae cyfle i osod cynlluniau i gyrraedd y nod hwnnw; ac os ydym, dyweder, mewn pwnc penodol yn llwyddo i ymateb yn gadarnhaol i fwyafrif o'r saith amcan a nodir uchod, gallwn fod yn sicr fod cynnydd sylweddol iawn wedi digwydd;
2. Bydd yr amcanion hyn, o'u derbyn, yn sail i gynllunio a blaenoriaethu fesul pwnc. Bydd cyd-destun pob pwnc yn amrywio, ac felly bydd angen ystyried pob un o'r amcanion uchod yn y broses cynllunio pynciol a llunio rhaglen datblygu a fydd yn blaenoriaethu'r gwahanol elfennau dan sylw.

Datblygiad addysg uwch yn y degawd nesaf

Mae angen hefyd bod yn effro i'r datblygiadau posibl ym maes addysg uwch yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod ac ymateb i themâu strategol pwysig. Mae sawl thema bosibl yn eu hamlygu eu hunain, ac mae elfennau hefyd o orgyffwrdd rhwng y themâu hyn:

- Datblygiad technoleg addysgiadol;
- Darpariaeth gydweithredol;
- Dysgu mwy hyblyg;
- Dysgu yn y gweithle;
- Cyrsiau a chymwysterau amrywiol;
- Ehangu mynediad;
- Llwybrau Dysgu.

Technoleg

Mae technoleg addysgiadol wedi datblygu'n sylweddol iawn dros y blynyddoedd diweddar, ac nid oes amheuaeth y bydd y datblygiadau hynny'n parhau. Mae angen i'r Gymraeg fod ar flaen y gad o safbwynt y dechnoleg a sicrhau bod y dulliau dysgu mwyaf cyfoes o ran cyfoethogi dysgu drwy dechnoleg yn cael eu mabwysiadu. Gall defnydd effeithiol o dechnoleg ein cynorthwyo wrth fynd i'r afael â nifer o'r heriau parthed datblygu addysg o'r radd flaenaf, ond mae'n

bwysig sicrhau bod y defnydd yn cwrdd ag anghenion y myfyrwyr, a'i fod wir yn cyfoethogi'r profiad. I'r diben hwn, bydd y Coleg yn adolygu a diweddaru ei strategaeth parthed technoleg yn rheolaidd.

Darpariaeth gydweithredol

O fewn rhai meysydd penodol, rhoddodd y Coleg gryn bwyslais yn ystod y pum mlynedd cyntaf ar hybu a chefnogi datblygiad darpariaeth gydweithredol. Bu rhai o'r cynlluniau yn llwyddiannus, ac eraill yn llai felly. Yn ystod y cyfnod nesaf, rhagwelir y bydd y Coleg yn parhau i gefnogi darpariaeth gydweithredol lle bo'r sail academaidd dros wneud hynny yn gadarn. Byddai hynny'n wir, er enghraifft, o ran cyfoethogi profiad y myfyrwyr drwy eu galluogi i fanteisio ar arbenigedd darlithwyr a gyflogir mewn sefydliadau eraill. Yr hyn sydd yn fwy anodd yw sefyllfaoedd lle y mae niferoedd myfyrwyr yn fach iawn a darpariaeth gydweithredol yn cael ei hystyried fel yr unig ffordd o ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Erbyn hyn mae'r Coleg wedi gosod strwythurau yn eu lle ar gyfer cefnogi darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys:

- Fframwaith cynllunio y cytunwyd arno gan Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ar gyfer datblygu cynlluniau gradd cydweithredol, gyda'r pwyslais ar sicrhau cytundeb ac ymrwymiad y partneriaid o'r cychwyn cyntaf;
- Pwyllgor Cydweithio Academaidd wedi ei sefydlu i sicrhau trosolwg strategol dros ymwneud y Coleg â'r agenda cydweithredol;
- Annog sefydliadau i barhau i weithredu strwythurau mewnol cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

Nid yw'r Coleg yn ystyried bod darparu'n gydweithredol yn ddisgwyliad ymhob achos pan ddarperir cyllid gan y Coleg i gefnogi darpariaeth academaidd. Fodd bynnag, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i osod hynny fel amod lle y bo'r cynllun datblygu pynciol perthnasol yn rhoi blaenoriaeth i hyn o safbwynt buddsoddiad gan y Coleg. Bydd pob cynllun pynciol felly'n nodi'n glir addasrwydd a blaenoriaeth darpariaeth gydweithredol o fewn y pwnc penodol, a gall y pwyslais a roddir i weithgareddau cydweithredol amrywio'n fawr yn ôl cyd-destun y pwnc.

Yn ystod y blynyddoedd cyntaf, mae'r Coleg – mewn rhai meysydd penodol – wedi buddsoddi'n helaeth mewn gweithgareddau megis cynadleddau neu fforymau sydd yn dod â myfyrwyr at ei gilydd heb eu bod o reidrwydd yn cyfrannu at y ddarpariaeth ffurfiol sydd yn rhan o'r cwrs gradd (mae hyn yn berthnasol i 'Dysgu mwy hyblyg' isod). I'r dyfodol, fodd bynnag, rhoddir mwy o bwyslais ar ddisgwyl bod gweithgaredd o'r fath yn gysylltiedig â modiwlau neu elfennau o fodiwlau sydd wedi eu credydu.

Bydd y Coleg hefyd yn cadw llygad ar ddatblygiadau mewn perthynas â chaniatáu i fyfyrwyr ddilyn modiwlau mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr sydd yn dewis astudio y tu allan i Gymru i ddilyn rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg.

Dysgu mwy hyblyg

Er i'r Cynllun hwn awgrymu eisoes y bu cwymp sylweddol yn y nifer o fyfyrwyr rhan-amser, mae dewisiadau myfyrwyr yn awgrymu bod cyrsiau sy'n cynnig y cyfle i astudio'n rhan-amser a pharhau i weithio (e.e. sawl cynllun gradd sylfaen newydd sydd wedi datblygu a/neu ddarpariaeth lefel Meistr) yn atyniadol i fyfyrwyr. Mae trafodaethau hefyd yn datblygu ynghylch gallu trosglwyddo credydau a/neu gydnabod dysgu blaenorol fel rhan o gyrsiau gradd. Mae rhai prifysgolion yn Lloegr wedi cychwyn cynnig credydau ar gyfer astudio cyrsiau ar-lein (CAEA[4] yn benodol) ac wedyn defnyddio'r credydau hynny fel rhan o lwybr gradd. Dylai pob cynllun datblygu pwnc o leiaf ystyried pa gyfleoedd sydd i astudio'n fwy hyblyg a pheidio cymryd yn ganiataol taw'r model sylfaenol yw'r myfyriwr 18 mlwydd oed llawn amser heb ymrwymiadau eraill. Mae'n bosibl hefyd y bydd y ffiniau rhwng y sector addysg uwch a'r sector addysg bellach yn dod yn llai pendant wrth i batrymau darpariaeth ac anghenion dysgwyr esblygu.

Er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i'r agenda hwn bydd y Coleg yn sefydlu partneriaethau agosach gyda sefydliadau sydd yn arbenigo mewn darpariaeth ran-amser a hyblyg er mwyn cynyddu'r cyfleoedd a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyswllt hwn.

Dysgu yn y gweithle

Mae hyn i raddau yn gysylltiedig â datblygiadau technegol a dysgu mwy hyblyg, ond mae galwadau cynyddol am hyfforddiant sgiliau lefel-uwch yn y gweithle. Gall hyn fod drwy gyrsiau byr, neu hyd yn oed brentisiaethau lefel gradd. Ymhellach, ceir marchnad amlwg sylweddol o unigolion yn y byd gwaith sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau ac y gellid, ac y dylid, eu denu at y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r amwysedd ynghylch y ffiniau traddodiadol rhwng addysg uwch, addysg bellach ac addysg alwedigaethol hefyd yn berthnasol yn y cyswllt hwn.

Cyrsiau a chymwysterau amrywiol

Ym maes addysg uwch, y datblygiad mwyaf trawiadol mewn blynyddoedd diweddar yw CAEA. Er y ceir heriau amlwg gyda'r cyrsiau hyn o ran cyfraddau cwblhau, mae cannoedd ar filoedd o fyfyrwyr yn dewis dilyn cyrsiau o'r fath bob blwyddyn. Bydd yr amrediad o gyrsiau addysg uwch a'r opsiynau fydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr yn ehangu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod ac mae'n hollbwysig fod y Gymraeg yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd a ddaw. Mae enghraifft y CAEA ym maes gwaith cymdeithasol yn cynnig un dull o wneud hyn; datblygu CAEA lle y gellir defnyddio'r adnoddau ar gyrsiau gradd fwy traddodiadol eu naws ond bod cyfle hefyd i unrhyw berson yn y gweithle, neu tu hwnt i'r gweithle, weithio drwy'r CAEA wrth arwain eu dysgu eu hunain.

Blas yn unig o'r datblygiadau posibl a geir yma, ond awgrymir bod angen i'r cynlluniau pynciol fod yn fwy strwythuredig wrth gydnabod amrywiaeth y sector addysg uwch a'r tebygrwydd y bydd yr amrywiaeth honno'n cynyddu yn y blynyddoedd a ddaw.

4 CAEA – Cwrs Agored Enfawr Ar-Lein – cyrsiau a gynigir fel arfer o bell, heb fod cost penodol iddynt, ac eithrio os yw myfyriwr yn dymuno derbyn tystysgrif ar y diwedd.

Ehangu Mynediad

Mae sicrhau bod pob myfyriwr sydd â'r gallu i elwa ar addysg uwch yn cael y cyfle i wneud hynny yn rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru. Bu'r egwyddor hon yn greiddiol bwysig i'r Coleg Cymraeg ers ei sefydlu ac 'roedd yn chwarae rhan eglur yng Nghynllun Academaidd cyntaf y Coleg. Mae'r dystiolaeth am gyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru yn awgrymu bod mwy o waith i'w gyflawni yn y cyd-destun hwn, ac mae'r Coleg wedi cydweithio'n agos gyda rhai o'r partneriaethau Ehangu Mynediad i sicrhau bod arlwy cyfrwng Cymraeg yn rhan o'u gweithgareddau. Bydd y Coleg yn sefydlu Gweithgor Ehangu Mynediad i oruchwylio rhaglen benodol o weithgareddau a fydd yn cynnwys elfennau o'r canlynol:

- Ymweliadau ag Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach lle y mae canran uchel o'r myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, gyda phwyslais penodol ar feithrin perthynas drwy'r flwyddyn â'r athrawon a'r darpar fyfyrwyr.
- Cydweithio'n agosach gyda phartneriaethau ehangu mynediad gan sicrhau bod elfennau penodedig cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog yn rhan ffurfiol o'r rhaglen gweithgareddau blynyddol.
- Gweithio gyda grwpiau gwarchodedig, megis gofalwyr, rhai sy'n gadael gofal ac ati er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Datblygu'r berthynas â'r Brifysgol Agored ac ehangu darpariaeth cyrsiau blasu byr megis 'Open Learn Cymru' fel bod modd i'r sawl sydd efallai'n ddihyder ac yn ystyried cwrs addysg uwch (efallai fel myfyriwr aeddfed) brofi'r ddarpariaeth a datblygu hyder.
- Adnabod cyfleoedd i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig sy'n ddihyder yn eu sgiliau ieithyddol a darparu rhaglen o gefnogaeth ieithyddol drwy'r Tiwtoriaid Iaith a gyllidir gan y Coleg.
- Adnabod meysydd penodol (os yw hynny'n briodol) lle y ceir problemau penodol parthed denu myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a cheisio gosod cynlluniau ar waith i gefnogi myfyrwyr i ymgeisio'n llwyddiannus i'r meysydd hyn.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol wrth hybu a hyrwyddo gweithgareddau'r Coleg.

Llwybrau Dysgu

Bydd pwyslais cynyddol fel rhan o Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar sicrhau dilyniant drwy'r system addysg. Bydd hyn yn golygu datblygu ymhellach waith y Coleg mewn partneriaeth ag ysgolion, ond hefyd (ac yn amodol ar ganfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried rôl y Coleg yn y dyfodol) i gydweithio llawer yn agosach gyda Cholegau Addysg Bellach er mwyn sicrhau bod yr ystod ehangaf posibl o fyfyrwyr yn gallu elwa ar ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn hefyd yn golygu sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr yr hyder i elwa ar elfennau o'u profiad addysgiadol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynllunio Academaidd fesul pwnc

Mae'r Cynllun Academaidd hwn yn nodi amcanion ac egwyddorion holl waith cynllunio academaidd y Coleg. Bydd y Cynllun hefyd yn llywio blaenoriaethau cyllido'r Coleg ochr yn ochr â'r prifysgolion. Mae'r adran hon yn nodi'n fras sut y bydd y Coleg yn gosod yr amcanion ac egwyddorion a fabwysiadwyd ar waith.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n ddiamwys i ddatblygu a chynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws ystod o bynciau academaidd a phrifysgolion ar draws Cymru.

Serch hynny, mae sefyllfaoedd pynciau unigol yn gallu amrywio'n fawr.

Gall pynciau amrywio o ran:

- Y traddodiad o gynnig y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Lefel yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael i gyfoethogi a chefnogi dysgu'r pwnc;
- Nifer y myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg sy'n dewis astudio'r pwnc;
- Nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Ehangder y ddarpariaeth a gynigir yn y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg;
- A yw'r pwnc yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaeth yn nhermau polisi cyhoeddus?;
- A oes galw cydnabyddedig gan gyflogwyr am raddedigion cyfrwng Cymraeg yn y maes?;
- Nifer y prifysgolion sydd yn cynnig y pwnc neu sydd yn deisyfu gwneud hynny.

Yr her sy'n wynebu'r Coleg yw sut i gyfeirio adnoddau prin yn strategol er mwyn cael yr effaith mwyaf sylweddol. Er mwyn ymateb i'r her, mae'r Coleg wedi mabwysiadu fframwaith newydd er mwyn llywio'r penderfyniadau. Cytunwyd ar bwysigrwydd sicrhau fframwaith eglur yn ganolog, gan y bydd nifer o'r pwyllgorau a fydd yn trafod adnoddau'r dyfodol yn cynnwys nifer fawr o gydweithwyr a fydd â rhyw fath o fudd a/neu ddiddordeb yn y penderfyniad.

Cynigir grwpio'r pynciau academaidd i wahanol gategorïau. Wrth wneud hynny byddwn hefyd yn ystyried y meysydd pwnc hynny sydd wedi eu hadnabod fel blaenoriaethau strategol polisi cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Iechyd a Gofal: Ar sail *Mwy Na Geiriau 2*, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer meysydd iechyd a gofal, mae'r cynllun gweithredu eisoes yn adnabod rôl i'r Coleg wrth weithredu'r strategaeth honno.
- Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon: Mae trafodaethau yn digwydd ar hyn o bryd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru

mewn perthynas â datblygiadau a newidiadau yn y maes hwn, gyda sylw penodol i rôl posibl y Coleg yn y dyfodol.

- Strategaeth Ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Byddwn yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i adnabod blaenoriaethau sy'n codi o'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu a gyhoeddir yn 2017.

Bydd y Coleg yn ystyried sefyllfa benodol y meysydd/pynciau a nodir uchod ar wahân.

Fel arall, byddwn yn dosrannu'r pynciau i dri chategori:

1. **Pynciau datblygu**: pynciau lle y mae'r nifer sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn gymharol fach, ond lle y mae'r potensial a'r awydd i ddatblygu;
2. **Pynciau datblygedig**: pynciau lle y mae'r ddarpariaeth a'r nifer myfyrwyr yn iach, ond ystyrir nad yw'r ddarpariaeth eto yn gynaliadwy;
3. **Pynciau aeddfed**: pynciau lle y mae addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i wreiddio (ar sail traddodiad hir o fuddsoddi gan y prifysgolion, yn dilyn buddsoddiad gan y Coleg, neu gyfuniad o'r ddau), y capasiti staffio yn gadarn, a'r niferoedd myfyrwyr yn ddigonol ar lefel genedlaethol i gynnal y ddarpariaeth.

Noder taw'r bwriad yw gosod pynciau o fewn categorïau yn genedlaethol. Hynny yw, y gorolwg cenedlaethol sy'n arwain y penderfyniad, nid o reidrwydd sefyllfa benodol mewn unrhyw brifysgol unigol. Dros amser, amcan y Coleg yw sicrhau bod rhan fwyaf y pynciau'n symud tuag at y trydydd categori. Yn sicr, gellir yn rhesymol ddisgwyl i'r mwyafrif llethol o bynciau gyrraedd Categori 2 (os nad 3) dros amser. Bydd y Coleg hefyd yn ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod pynciau sy'n datblygu'n effeithiol yn cael eu cefnogi (a hynny'n gyllidol) wrth wneud hyn. Ystyrir bod sicrhau grantiau pynciol yn un elfen o'r cyllido lle y gellid darparu cefnogaeth ar sail i) lefel y ddarpariaeth, ond hefyd ii) nifer y myfyrwyr sy'n elwa'n helaeth ar y ddarpariaeth a gynigir.

Wrth ymateb i'r amrywiaeth pynciol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr amrywiol gyd-destunau, cytunwyd ar y canlynol:

- Hanes y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg – disgwylir i'r pynciau hynny sydd â thraddodiad hir o ddarparu yn llwyddiannus drwy gyfrwng y Gymraeg syrthio i Gategorïau 2 neu 3;
- Adnoddau cyfrwng Cymraeg – gall ystod yr adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg effeithio ychydig ar gategoreiddio pwnc, ond gan fod y ffrydiau cyllid ar gyfer adnoddau yn agored i bob un o'r categorïau, awgrymir nad yw ystod yr adnoddau yn ffactor allweddol wrth gategoreiddio;
- Nifer y myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg a/neu sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg – os oes niferoedd uchel o fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg eisoes yn astudio pwnc, a hynny yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir i bwnc syrthio i Gategori 2 neu 3. Ystyrir niferoedd yn genedlaethol lle y mae nifer o

brifysgolion yn cynnig y pwnc (h.y. os oes un neu fwy o leoliadau â darpariaeth aeddfed eisoes yn cynnig y pwnc, bydd y pwnc yn syrthio i Gategori 3);

- Nifer y myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg a/neu'n astudio yn y Gymraeg. Os yw'r niferoedd sy'n astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn isel, ond bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn uchel, disgwylir i'r pwnc syrthio i Gategori 1;
- Y Ddarpariaeth. Bydd pynciau sydd ag o leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn fel arfer yn cwympo i Gategori 2 neu 3. Bydd pynciau sy'n anelu at o leiaf 80 credyd, gydag o leiaf 40 credyd fel arfer, yn syrthio i Gategori 2, a'r pynciau hynny sy'n amcanu at/neu wedi cyrraedd 40 credyd, ond heb fwriad i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach, yn syrthio i Gategori 1 neu 2.

Maes blaenoriaeth polisi cyhoeddus

Bydd y pynciau hynny a ddynodir fel meysydd blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru yn cael eu nodi fel blaenoriaethau, waeth beth yw'r niferoedd myfyrwyr/ystod y ddarpariaeth. Bydd y pynciau hyn yn gymwys i dderbyn y canlynol: Cynlluniau noddi/cefnogi penodol; Grantiau pynciol (ar lefel uwch); Ysgoloriaethau Cymhelliant; Prif Ysgoloriaethau; Ysgoloriaethau PhD; Modiwlau cydweithredol; Grantiau Bach; Arian Prosiect; Cefnogaeth Swyddogion Pwnc.

Fel arfer bydd y cyllid a ddarperir i bynciau blaenoriaeth polisi cyhoeddus neu Gategori 1 ar gael i nifer cyfyngedig o brifysgolion neu un brifysgol yn unig. Bydd pynciau lle y mae nifer o brifysgolion yn cynnig darpariaeth sylweddol fel arfer yn syrthio i Gategori 2 neu 3.

Categori 1 – **Pynciau Datblygu** meysydd â niferoedd isel	Categori 2 – **Pynciau Datblygedig** meysydd â niferoedd da, a darpariaeth sydd o leiaf yn 40 gredyd	Categori 3 – **Pynciau Aeddfed**
Grantiau Pynciol (ar lefel uwch)	Grantiau Pynciol (ar lefel is)	Prif Ysgoloriaethau
Ysgoloriaethau Cymhelliant	Ysgoloriaethau Cymhelliant	Ysgoloriaethau PhD
Ysgoloriaethau PhD	Prif Ysgoloriaethau (lle y mae 80 credyd ar gael ym mhob blwyddyn)	Modiwlau Cydweithredol
Modiwlau Cydweithredol	Ysgoloriaethau PhD	Grantiau Bach
Grantiau Bach	Modiwlau Cydweithredol	Arian Prosiect
Arian Prosiect	Grantiau Bach	Cefnogaeth Swyddogion Pwnc
Cefnogaeth Swyddogion Pwnc	Arian Prosiect	
	Cefnogaeth Swyddogion Pwnc	

Bwriad y Coleg yw ystyried fesul pwnc sut i gydbwyso'r adnoddau a ddarperir gan y Coleg gyda'r adnoddau a ddarperir gan y brifysgol. Ym mhob achos, bydd yr egwyddor o gydgyllido yn weithredol – ond bydd y cydbwysedd rhwng y disgwyliadau ar y Coleg a'r brifysgol yn gwahaniaethu fesul categori pynciol.

O ran pynciau a nodir fel blaenoriaethau polisi cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, disgwylir y bydd cyfran sylweddol (os nad y mwyafrif) o'r adnoddau a ddarperir

yn cael eu darparu gan y Coleg a/neu Lywodraeth Cymru, gan ddibynnu ar union gyd-destun y pwnc.

Yng Nghategori 1, disgwylir y bydd cyfran sylweddol (ac o bosibl y mwyafrif) o'r adnoddau a ddarperir yn cael eu darparu gan y Coleg.

Yng Nghategori 2, disgwylir y bydd y mwyafrif o'r adnoddau a ddarperir yn cael eu darparu gan y brifysgol, gan nodi y bydd disgwyl i'r Coleg gyfrannu (a hynny efallai yn sylweddol) hefyd.

Yng Nghategori 3, disgwylir y bydd y mwyafrif o'r adnoddau a ddarperir yn cael eu darparu gan y prifysgolion, gan nodi y bydd modd i'r pynciau/adrannau barhau i elwa ar nifer o gynlluniau cenedlaethol y Coleg.

Pwysleisir yma mai'r **cyd-bwysedd** rhwng y gofynion ar y Coleg a'r prifysgolion unigol sydd dan sylw yma, nid maint cyflawn y cyllido.

Rhagwelir y bydd y cytundebau cyllido newydd a ddaw i rym yn 2017/18 yn cynnwys fframwaith ar gyfer cytundeb yn nodi ymrwymiadau sefydliadau i gynnal darpariaeth o'u hadnoddau eu hunain fesul pwnc, ochr yn ochr â derbyn cefnogaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mesuryddion

Byddwn yn mesur llwyddiant y Cynllun Academaidd drwy fabwysiadu ystod o fesuryddion i asesu cynnydd.

Byddwn yn mesur llwyddiant fel a ganlyn:

Darpariaeth

Sicrhau bod darpariaeth academaidd ar gyfer myfyrwyr yn cael ei darparu mewn modd cost-effeithiol mewn cynifer â phosibl o ddisgyblaethau
[Mesur: Nifer o ddisgyblaethau lle y cynigir o leiaf 40 credyd/o leiaf 80 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg];

Cynaliadwyedd

Sicrhau bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn elwa ar ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg
[Mesur: Nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5, o leiaf 40, o leiaf 80 ac 120 credyd bob blwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg];

Cysylltiadau effeithiol yn cael eu creu gyda'r sector addysg bellach ac ysgolion i hybu dilyniant
[Mesur: Canran o fyfyrwyr ysgol ac addysg bellach sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel addysg uwch];

Nifer addas o ddarlithwyr i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan gynnig ystod o fodiwlau craidd ac arbenigol i fyfyrwyr fel y bo'n briodol
[Mesur: Nifer y darlithwyr sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg];

Cyflogadwyedd

Sicrhau bod anghenion datblygu gweithlu yng Nghymru yn cael eu hadnabod ac yr ymdrinnir â hwy
[Mesur: Dangos tystiolaeth fod y sector addysg uwch yn ymateb i dargedau mewn perthynas â datblygu gweithlu sydd yn ymddangos mewn strategaethau Llywodraeth Cymru (e.e. Mwy na Geiriau 2)];

Cydnabyddiaeth briodol i sgiliau iaith myfyrwyr drwy'r Dystysgrif Sgiliau Iaith (TSI)
[Mesur: Nifer y myfyrwyr sy'n sefyll y TSI a nifer y cyflogwyr sy'n cydnabod y TSI yn ffurfiol];

Llwyddiant myfyrwyr i gael eu cyflogi ar ddiwedd y radd neu i symud ymlaen at astudiaethau ôl-raddedig
[Mesur: Cyfraddau cyflogaeth/astudio pellach myfyrwyr ar ôl chwe mis a gofnodir drwy DLHE];

Profiad y Myfyriwr

Myfyrwyr yn derbyn profiad addysgiadol o'r radd flaenaf.
[Mesur: Data/Asesiad Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol/Ysgol];

Adnoddau

Addysgu'r myfyrwyr yn cael ei gyfoethogi drwy ddatblygiad adnoddau o'r radd flaenaf.
[Mesur: Ehangder a thystiolaeth o ddefnydd yr adnoddau a letyir gan y Coleg];

Agenda ymchwil a chyhoeddi cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn
[Mesur: Nifer y cyhoeddiadau academaidd cyfrwng Cymraeg a geir yn flynyddol].

Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol —
Tuag at 2020 a thu hwnt

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3WQ

www.colegcymraeg.ac.uk